



Siarter y Myfyrwyr

Sut mae ein cymuned yn gweithio

Mae'r Brifysgol Agored yn fwy na dim ond lle i ddysgu – mae'n gymuned. Fel aelodau o gymuned Y Brifysgol Agored, mae gennym ni – yn staff ac yn fyfyrwyr – gyfrifoldebau tuag at ein gilydd a fydd, os cânt eu cyflawni, yn galluogi myfyrwyr i gyrraedd eu llawn botensial a'r Brifysgol i ffynnu.

Mae'r Brifysgol a Chymdeithas y Myfyrwyr yn cymryd Siarter y Myfyrwyr, a ddatblygwyd ar y cyd, o ddifrif iawn ac maent yn gwbl ymrwymedig i'w gweithredu. Mae'n nodi'r hyn y gallwn ei ddisgwyl oddi wrth ein gilydd ac yn ddatganiad o'n gwerthoedd a rennir yn hytrach na llyfr rheolau.

Mae Siarter y Myfyrwyr yn disgrifio ffyrdd y dylai aelodau o gymuned y Brifysgol gydweithio mewn partneriaeth ac mae'n seiliedig ar bedair egwyddor:

- Rydym yn trin ein gilydd ag urddas a pharch
- Ein nod yw ysbrydoli a galluogi dysgu
- Rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ddysgu
- Rydym yn cydweithio er mwyn sicrhau cenhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol – bod yn agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau; a bod yn gynhwysol, yn arloesol ac yn ymatebol.

Wrth i'r Brifysgol barhau i newid ac esblygu, byddwn yn adolygu'r Siarter hon bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu ein hanghenion a'n heriau presennol, tra'n parhau i gefnogi'r prif nod o helpu ein myfyrwyr i lwyddo.

Fel aelodau o gymuned groesawgar a chynhwysol, byddwn yn gwneud y canlynol:

1. Trin ein gilydd â chwarteisi a pharch, gan barchu hawliau unigolion i arddel credoau a safbwyntiau gwahanol a'u mynegi'n briodol.
2. Gwerthfawrogi amrywiaeth a herio anghydraddoldebau, ac rydym yn gryfach o wneud hynny.
3. Ymrwymo i ddyfodol economaidd ac amgylcheddol cynaliadwy ar gyfer ein Prifysgol.
4. Cyfathrebu â'n gilydd mewn ffyrdd clir, perthnasol, cywir ac amserol.
5. Cefnogi Cymdeithas y Myfyrwyr i ymgysylltu â'i holl aelodau i feithrin cymuned myfyrwyr fywiog a hyrwyddo buddiannau'r myfyrwyr.
6. Cefnogi myfyrwyr i gyfrannu at benderfyniadau'r Brifysgol, gan sicrhau bod y cylch adborth ar gau; ac ymrwymo i feithrin partneriaeth rhwng y staff a'r myfyrwyr.
7. Ymddwyn yn foesol ac yn dryloyw, gan ddarparu a defnyddio ffyrdd teg ac agored o fynd i'r afael â'n pryderon a'n cwynion, gan ddysgu ohonynt.

8. Herio achosion o fwlio ac aflonyddu ac ymrwymo i gefnogi iechyd meddwl a llesiant pob aelod o gymuned ein Prifysgol.
9. Fel myfyrwyr, rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ddysgu ac yn ymrwymo i astudio ac ymchwilio gan ddefnyddio'r adnoddau a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael, gan gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb academaidd.
10. Fel staff, mae pob un ohonom yn chwarae ein rhan i alluogi dysgu o safon uchel a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth drwy ymchwil a gweithgarwch ysgolheigaidd, gan sicrhau y caiff pob myfyriwr ei gefnogi.
11. Cynnal a gwella safonau ac enw da ein Prifysgol, gan gydnabod cyfraniad pob aelod at ei llwyddiant.

Wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Brifysgol Agored yn ymrwymedig i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Am ragor o wybodaeth, ewch i open.ac.uk/cymru.

Gellir gweld y broses gwyno yn: help.open.ac.uk/how-to-make-a-complaint-or-appeal. Mae'r polisïau y cynhelir Siarter y Myfyrwyr drwyddynt ar gael yn help.open.ac.uk/documents/policies.